Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Adroddiad cydraddoldeb blynyddol

## 2020 i 2021

# Manylion cyswllt

Croesawn sylwadau ar yr adroddiad blynyddol hwn.

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0300 3033 444
E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol
© 2022 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

**Fformatau eraill:**
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn fformatau eraill, os oes angen.

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i wneud tuag at gyflawni ein chwe amcan cydraddoldeb yn ystod 2020 i 2021.

Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol (ar gyfer Cymru) yn mynnu ein bod yn adrodd yn flynyddol ar sut rydym wedi cyflawni dyletswydd gydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus (y ddyletswydd gyffredinol) fel y cafodd ei hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Yn 2018 y gwnaethom ni gyhoeddi ein cynllun cydraddoldeb strategol cyntaf a oedd yn amlinellu sut y byddwn ni, trwy ein rôl a'n swyddogaethau, yn hyrwyddo a datblygu cyfle cyfartal ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, sef:

- pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr
- y gweithlu sy'n darparu gofal a chymorth
- ein staff.

Rhoddodd y broses o ddatblygu ein *Cynllun cydraddoldeb strategol* gyfle i ni egluro ein hymrwymiad i gydraddoldeb a chydnabod ein rôl arweinyddiaeth yn y sector, yn ogystal â'n cyfrifoldeb i ddylanwadu ar eraill i hyrwyddo cydraddoldeb.

Er mai diben yr adroddiad hwn yw darparu cofnod o'n gwaith yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd ar fin cyhoeddi cynllun cydraddoldeb strategol newydd – *Dod yn Gymru wrthwahaniaethol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth mewn gofal cymdeithasol* – sy'n ystyried effaith economaidd-gymdeithasol pandemig Covid-19.

# Pwy ydym ni

Ni yw'r prif sefydliad yng Nghymru ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, gwella gwasanaethau, ymchwil a data, a datblygu'r gweithlu.

Rôl ar raddfa lai sydd gennym yn y sector blynyddoedd cynnar. Rydym yn bartner strategol i Lywodraeth Cymru, sy'n cefnogi datblygiad parhaus, y cymorth a roddir, a'r broses o broffesiynoli'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar.

## Beth ydym ni'n ei wneud?

Rydym yn:

- **datblygu'r gweithlu** fel bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i ddiogelu, grymuso a chefnogi'r rhai sydd angen cymorth a gofal
- **gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau** mewn meysydd y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth genedlaethol
- **darparu gwybodaeth** i'r cyhoedd, y gweithlu a sefydliadau eraill
- **rhannu arferion** â'r gweithlu fel y gallant ddarparu'r ymateb gorau i ddiwallu anghenion cymorth
- **pennu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil** i gael tystiolaeth o beth sy'n gweithio'n dda
- **pennu safonau** ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth, gan eu dwyn i gyfrif am eu gwaith.

Rydym yn cefnogi ac yn hyrwyddo arloesedd, ac yn rhannu gwybodaeth, arferion a phrofiadau ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y gallwn gydweithio i wella canlyniadau ar gyfer pobl a theuluoedd sy'n defnyddio gofal a chymorth, yn ogystal â'r rhai sy'n eu darparu. Byddwn yn gweithredu fel arweinydd, hyrwyddwr a llais i ofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar, gan gynnig her adeiladol a chymorth i weithwyr proffesiynol a darparwyr.

Mae ein gwaith yn seiliedig ar yr egwyddor bod oedolion a phlant sy'n defnyddio gofal a chymorth, yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalwyr, yn cydweithio i greu cymorth sy'n gweithio iddyn nhw. Mae'r dull yn cael ei yrru gan werthoedd ac yn seiliedig ar yr egwyddor mai'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau sydd yn y sefyllfa orau i helpu i'w cynllunio. Byddwn yn gwneud hyn yn uniongyrchol yn ein gwaith lle bo'n briodol, ond byddwn hefyd yn sicrhau ein bod ni'n dilyn y dull hwn yn ein holl gyngor ynghylch tystiolaeth i'r sector.

# Gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb

Mae canllawiau anstatudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y comisiwn) ynglŷn ag adrodd ar gydraddoldeb yn nodi:

> **"Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol ynglŷn â chydraddoldeb nodi'n benodol:**
>
> - **y camau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd i amlygu a chasglu gwybodaeth berthnasol**
> - **datganiad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r awdurdod ar gyfer amlygu a chasglu gwybodaeth berthnasol."**[1]

Mae gennym drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer amlygu a chasglu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb ynglŷn â'n staff a'n partneriaid. Rydym yn amlygu a chasglu'r data hwn trwy'r canlynol:

- monitro cydraddoldeb ein staff
- y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol (y Gofrestr)
- y Set Ddata Gofal Cymdeithasol Genedlaethol i Gymru
- darparu rhaglenni hyfforddiant cenedlaethol.

Nid casglu a chael gafael ar ddata cydraddoldeb yw ein nod, ond ymgorffori tystiolaeth o gydraddoldeb yn ein gwaith. Mae casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol yn rhan hollbwysig o gyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol. Rydym eisiau sicrhau bod gennym y dystiolaeth orau bosibl i ganiatáu i ni osod amcanion ystyrlon a chynnal asesiadau effaith sy'n gwbl seiliedig ar wybodaeth.

1. Canllawiau anstatdol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar adrodd am gydraddoldeb

# Amcanion cydraddoldeb

Llywiwyd y broses o ddatblygu ein chwe amcan cydraddoldeb gan bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Diben gosod amcanion cydraddoldeb yw helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn well.

A ninnau'n gorff cyhoeddus rhestredig, sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd gyffredinol, mae'n rhaid i ni, wrth arfer ein swyddogaethau, roi sylw priodol i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, a phob ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.



Mae amcanion cydraddoldeb yn helpu i hoelio'r sylw ar y materion cydraddoldeb sy'n flaenoriaeth mewn sefydliad, fel y gall wneud gwelliannau ym meysydd llunio polisïau, darparu gwasanaethau a chyflogaeth, gan gynnwys dyrannu adnoddau[2].

2. Objectives and the Equality Duty: A Guide for Public Authorities, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2014

## Cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb

Er mwyn sicrhau ein bod yn sefydliad effeithiol a thryloyw, rydym yn adrodd ar ein perfformiad ac yn ceisio adborth yn rheolaidd. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adlewyrchu'r camau, y gweithredoedd a'r mentrau rydym wedi'u cynnal i gyflawni ein chwe amcan cydraddoldeb.

### Amcan 1 – Cynyddu ymwybyddiaeth o'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* (y Côd) ymhlith pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr

**Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?**

- Rydym eisiau sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn gwybod am y Côd. Mae'r safonau'n bodoli i helpu i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i fyw eu bywyd yn y ffordd sy'n adlewyrchu eu hanghenion.

- Rydym wedi casglu tystiolaeth sy'n awgrymu mai ychydig o wybodaeth os o gwbl sydd gan bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig am y Côd. Gyda'r dystiolaeth gychwynnol hon, rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio amrywiaeth o offer ac adnoddau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Côd ymhlith y bobl amrywiol sy'n defnyddio gofal a chymorth yng Nghymru.

**Beth ydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?**

- Rydym wedi cynnal dau ddarn o waith penodol i symud yr amcan hwn yn ei flaen. Rydym wedi:

  - rhoi'r holl adnoddau sy'n hyrwyddo'r Côd a beth y gall pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr ei ddisgwyl gan eu gweithwyr gofal mewn un lle ar ein gwefan
  - nodi cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth am y Côd ymhlith plant a phobl ifanc.

- Mae crynhoi'r holl ddeunyddiau sydd gennym am y Côd i'r cyhoedd mewn un lle ar ein gwefan yn sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn gallu dod o hyd i wybodaeth yn gyflym ac yn hawdd. Rydym hefyd wedi ychwanegu dolen i'n gwybodaeth am ddiogelu ar y dudalen - beth i'w wneud os ydych chi'n credu bod rhywun yn cael ei gam-drin neu os oes rhywun yn eich cam-drin chi.

- Mae nodi cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r Côd ymhlith plant a phobl ifanc yn hanfodol os ydym am eu helpu i ddeall eu hawliau wrth iddynt dderbyn cymorth gan weithwyr gofal cymdeithasol. Er bod pandemig Covid-19 wedi oedi'r gwaith hwn, rydym wedi bod yn gwneud cynnydd ers Ionawr 2021 ar godi ymwybyddiaeth am y Côd ar draws gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc.

- I'n helpu ni i wneud hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd 'dod i'ch adnabod chi' gyda phartneriaid asiantaeth. O ganlyniad i'r trafodaethau, ffurfiwyd grŵp ffocws gydag asiantaethau sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi plant a phobl ifanc, yn arbennig o fewn y sector gofal a'r grwpiau anodd ei chyrraedd. Roedd yr asiantaethau'n cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Tros Gynnal Plant Cymru, Voices from Care a Phlant yng Nghymru.

- Rydym wedi datblygu a rhannu cyfres o gwestiynau gydag aelodau grŵp ffocws y rhanddeiliaid, sy'n gofyn i'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw beth maen nhw'n ei wybod am gofrestriad gweithwyr cymdeithasol a sut mae eu gweithwyr gofal yn bodloni'r safonau ymddygiad a bennir yn y Côd.

## Amcan 2 – Ymchwilio a rhannu ymarfer da sy'n cefnogi canlyniadau gwell i bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth

**Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?**

Rydym eisiau cael canlyniadau gwell i blant ac oedolion sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Rydym eisiau deall a rhannu ymarfer da sy'n ymateb i anghenion gofal a chymorth y cymunedau amrywiol yng Nghymru.

**Beth ydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?**

- Yn Ebrill 2020, lansiwyd prosiect ar y cyd ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i nodi blaenoriaethau ymchwil yn ymwneud â gofal a chymorth i bobl hŷn. Roeddem eisiau canfod y ffordd orau o ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy i helpu pobl hŷn i fyw bywydau hapusach a bodlonach.

- Cymerwyd camau ychwanegol i ymgysylltu â phobl hŷn lle yn aml nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol yn y gwaith datblygu a chynhyrchu ymchwil. Canolbwyntiwyd yn arbennig ar bobl sy'n debygol o fod â phrofiadau gwahanol o ofal cymdeithasol, yn cynnwys cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a LHDTCR, pobl anabl a phobl hŷn sydd yn y carchar neu'n ddigartref.

- Darparodd cyfanswm o 168 o bobl hŷn sy'n derbyn gofal a chymorth, a'u gofalwyr, wybodaeth i'r ymchwil a'r 10 flaenoriaeth ymchwil am ofal a chymorth i bobl hyn.

- Rhannwyd y 10 blaenoriaeth gydag ymchwilwyr a chyllidwyr i nodi cwestiynau ymchwil a chyllid posibl. Mae rhywfaint o gyllid wedi'i ddarparu eisoes.

- Rydym nawr yn cynllunio ein prosiect ar y cyd nesaf gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a fydd yn canolbwyntio ar ddulliau ataliol ac yn seiliedig ar gryfderau i blant a theuluoedd. Byddwn yn rhoi sylw arbennig i sicrhau ein bod ni'n cynnwys plant a theuluoedd o gymunedau amrywiol ac ar y cyrion.

- Rydym wedi bod yn bartner ym mhrosiect Get There Together[3]. Nod y prosiect blaenllaw hwn yng Nghymru yw helpu pobl â dementia i adfer o'r effaith andwyol mae'r pandemig wedi'i chael ar eu hiechyd, arferion bob dydd a rhyngweithiad gyda'r gymuned.

- Mae'r prosiect wedi cynhyrchu adnoddau fideo i helpu pobl â dementia i deimlo'n hyderus i fynd allan i'r gymuned i amwynderau lleol fel llyfrgelloedd, meddygfeydd, archfarchnadoedd a siopau lleol. Mae'r adnoddau a ddatblygwyd hyd yn hyn ar gael ar wefan Dewis, ac maent wedi cael sylw yn y wasg genedlaethol. Mae'r prosiect yn rhan o raglen enghreifftiol Comisiwn Bevan hefyd.

3. Mae prosiect Get There Together yn cyd-fynd â *Chynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia* (Llywodraeth Cymru, 2018).

## Amcan 3 – Cefnogi'r sector i gyflawni gweithlu amrywiol a chynrychioladol

**Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?**

Rydym eisiau cael gweithlu gofal cymdeithasol sy'n fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, yn arbennig lle mae tystiolaeth o dangynrychiolaeth. Rydym eisiau gweithio gyda phartneriaid i amlygu ac ymdrin â'r rhwystrau a allai atal pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig rhag ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth wedi dweud wrthym fod gweithlu amrywiol yn dod ag amrywiaeth o syniadau, profiadau a sgiliau sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu. Yn ogystal, gwnaethant ddweud wrthym fod rhaid i ofal cymdeithasol gael ei hyrwyddo fel proffesiwn sy'n cael ei werthfawrogi ac y dylid sicrhau bod amrywiaeth o lwybrau mynediad ar gael i bobl ymuno â'r sector. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi cynaliadwyedd y gweithlu trwy ddatblygu a gweithredu strategaeth y gweithlu a chynhyrchu adnoddau i gynorthwyo cyflogwyr a'r gweithlu.

**Beth ydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?**

- Mae rhaglen Gofalwn Cymru'n parhau i hyrwyddo amrywiaeth yn y gweithle drwy ddarparu enghreifftiau amrywiol o weithwyr gofal mewn ffilmiau a delweddau sydd wedi'u rhannu ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae'n hanfodol bod y rhaglen genedlaethol hon yn gynhwysol a hygyrch i bawb, ac rydym yn ceisio amlygu grwpiau amrywiol o bobl lle bo'n bosibl.
- Yn hydref 2020, cynhaliwyd ymgyrch deledu am ofal cartref a oedd yn adlewyrchu'r gweithlu amrywiol ac yn dangos sut beth yw gweithio yn y sector gofal yn ystod y pandemig.
- Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynnal sesiynau ar gyfer cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i helpu i godi ymwybyddiaeth am y gyrfaoedd sydd ar gael yn y sector gofal ac adnoddau fel Porth Swyddi Gofalwn Cymru.

## Amcan 4 – Sicrhau bod cydraddoldeb, hawliau dynol, urddas a pharch yn parhau i ategu hyfforddiant gofal cymdeithasol

**Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?**

Mae gofal cymdeithasol yng Nghymru yn newid. Mae mwy o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig angen gofal a chymorth, ac maen nhw'n mynnu derbyn gofal a chymorth sy'n bodloni eu hanghenion. Felly, mae'n hanfodol bod cydraddoldeb yn ganolog i hyfforddiant y gweithlu.

Rydym eisiau sicrhau bod y gweithlu'n cael ei gefnogi a'i fod yn darparu gofal cymdeithasol yn unol â'r gyfraith, a bod ei ymarfer yn adlewyrchu egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Beth ydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?**

- Rydym yn cynnal gweithdai i ddarparwyr dysgu am baratoi ar gyfer arwain a rheoli iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn parhau yn y flwyddyn ariannol hon. Roedd y modiwl cyntaf yn canolbwyntio'n sylweddol ar ddulliau seiliedig ar hawliau, cydraddoldeb, amrywiaeth, hawliau dynol ac asesiadau seiliedig ar gryfderau. Mynychodd 50 o ddarparwyr dysgu y gweithdai - darparwyr sy'n darparu'r cymhwyster arweinyddiaeth a rheolaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

- Mae ein rhaglen gyflwyniad i ofal cymdeithasol ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r hyfforddiant yn darparu cyflwyniad i:

  - ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
  - dulliau sy'n canolbwyntio ar hawliau
  - cydraddoldeb ac amrywiaeth
  - y Côd
  - egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

- Rydym yn darparu hyfforddiant sgiliau cyfathrebu cydweithredol mewn partneriaeth ag ASC Ltd, i helpu'r gweithlu i ddarparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a chryfderau. Mae'r rhaglen hefyd yn edrych ar y goblygiadau i sefydliadau ac ymarferoldeb ymgorffori'r ffordd hon o weithio mewn sefydliadau.

- Rydym hefyd yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, penaethiaid gwasanaethau oedolion Gwent ac uned Gyflenwi'r GIG ar brosiect sy'n ymwneud â chydbwyso hawliau a chyfrifoldebau. Mae'r prosiect hwn yn cyfuno dwy raglen lwyddiannus, gyfredol (Cyfathrebu Cydweithredol a Nodau Gofal) i geisio cysoni'r dull gyda threfniadau rhyddhau cleifion ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn cefnogi trefniadau rhyddhau o'r ysbyty mwy effeithiol drwy wneud defnydd gwell o arbenigedd ac adnoddau. Mae hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu rhannu a bod yr unigolyn yn ganolog i'r drafodaeth.

## Amcan 5 – Recriwtio a chadw gweithlu cynrychioliadol sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi a hyrwyddo cyfle cyfartal

**Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?**

Ein gweithlu (yng Ngofal Cymdeithasol Cymru) yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr. Rydym wedi ymrwymo i symud cydraddoldeb ac amrywiaeth ymlaen a chael gwared ar bob math o wahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu yn y gweithle.

Mae gweithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn well yn parhau i fod yn ganolog i'n hymdrechion i greu gweithle cynhwysol a gweithle ar gyfer dysgu. Rydym eisiau i'n staff fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo cyfle cyfartal a datblygu perthnasoedd da. Byddwn yn cyflawni hyn trwy hyfforddiant a datblygiad.

**Beth ydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?**

- Dychwelodd tri deg wyth a hanner y cant o ymgeiswyr recriwtio'r ffurflen fonitro cydraddoldeb sydd wedi'i chynnwys yn ein pecyn ymgeisio.

- Dyma ddywed y wybodaeth am broffil amrywiaeth ein hymgeiswyr:

  - roedd 64 y cant o ymgeiswyr yn fenywaidd, 34 y cant yn wrywaidd a dau y cant yn anneuaidd
  - roedd 41 y cant o geisiadau gan bobl 25 i 29 oed a 13.5 y cant gan bobl 50 i 54 oed
  - roedd 12 y cant o geisiadau gan bobl ag anableddau
  - roedd 93 y cant o ymgeiswyr yn heterorywiol, a chwech y cant yn LHDT+
  - roedd 86.5 y cant o ymgeiswyr yn disgrifio eu hunain yn Wyn Cymreig, Gwyn Prydeinig neu Wyn Seisnig.

- Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio camau ychwanegol y gallwn eu cymryd i ddileu unrhyw rwystrau gwirioneddol neu ganfyddedig a wynebir gan grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu, fel rhan o'n cynllun ar gyfer 2021 i 2022. Bydd hyn yn cynnwys cofrestru ar gyfer y cynllun hyderus o ran anabledd.

- Rydym wedi datblygu canllawiau ychwanegol i reolwyr recriwtio i helpu i ddileu unrhyw botensial am ragfarn yn ystod y broses gyfweld. Rydym hefyd wedi cyflwyno 'dull tynnu rhestr fer yn ddall' ac wedi cryfhau'r gofynion ar gyfer ein paneli recriwtio i sicrhau bod yna gydbwysedd rhwng y rhywiau.

- Mae'n rhaid i bob newydd-ddyfodiad gwblhau modiwl e-ddysgu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel rhan o'i broses sefydlu.

- Fe wnaethom ni sefydlu grŵp llywio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a oedd yn cynnwys staff o wahanol rannau'r sefydliad. Bydd y grŵp yn:

  - derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn rhoi cyngor ar gynnydd a'r ffordd ymlaen
  - cynhyrchu ac ystyried syniadau am waith i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth
  - rhoi camau gweithredu ar waith i wella a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Amcan 6 – Ymestyn a gwella'r ffyrdd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gweithlu

**Pam mae hwn yn un o'n hamcanion?**

Fel sefydliad arweinyddiaeth gyhoeddus, mae'n bwysig i ni gynyddu a gwella ein hymgysylltiad â phobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig, os ydym am wireddu ein gweledigaeth.

Rydym yn chwarae rhan hanfodol mewn dod â phobl ynghyd er mwyn gwella ansawdd gofal a chymorth ledled Cymru, ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud hynny mewn modd sy'n adlewyrchu ein gwerth o annog a galluogi pawb i weithio gyda'i gilydd. Mae cysylltu â chymunedau amrywiol mewn ffordd ystyrlon yn cyfoethogi ein gwybodaeth a rennir ac yn ein galluogi i gyflawni ein nodau trwy weithio gyda phobl.

**Beth ydym wedi'i wneud i symud yr amcan hwn ymlaen?**

- Rydym wedi adeiladu ar y gwaith a wnaed llynedd i sicrhau bod ein gwefan a phlatfformau ar-lein eraill yn cydymffurfio â chyfarwyddeb yr UE ar gyfer hygyrchedd gwefan. Rydym wedi parhau i ddefnyddio cwmni arbenigol, Siteimprove, i fonitro'n gwefan a'n porth cofrestru ar-lein, GCCarlein, yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfarwyddeb. Mae hyn yn ein helpu ni i nodi unrhyw broblemau hygyrchedd fel y gellir eu datrys yn gyflym.

- Rydym wedi canolbwyntio'n fawr ar ddarparu hyfforddiant i'n staff, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu cynnwys i ddefnyddwyr ein gwefan a phlatfformau ar-lein eraill. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant ar sut i ysgrifennu'n syml a chlir yn ein tôn llais ni, fel nad yw'r ffordd rydym yn ysgrifennu a'r iaith a ddefnyddiwn yn rhwystr i bobl ddeall ein gwybodaeth.

- Mae'r hyfforddiant hefyd wedi cynnwys gwneud ein staff yn fwy ymwybodol o beth sy'n gwneud cynnwys yn fwy hygyrch a sut i ddarparu beth sy'n ddefnyddiol i ddefnyddwyr ein platfformau ar-lein ac mewn modd o'u dewis. Mae hyn i gyd yn helpu i ddileu unrhyw rwystrau posibl i'n cynnwys fod ar gael yn eang, yn ddealladwy ac yn hygyrch i'r rhai sydd â diddordeb ynddo.

# Cyflog cyfartal

Rydym yn cynnal adolygiad ynglŷn â chyflogau cyfartal bob blwyddyn er mwyn darganfod a oes yna unrhyw wir anghyfartaleddau neu anghyfartaleddau posibl sy'n ymwneud â chyflog yn y sefydliad - ac os oes rhai, bydd yn gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain.

Yn benodol, rydym yn gwirio nad ydym yn gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn unrhyw weithiwr neu grŵp o weithwyr trwy ein systemau cyflog.

Mae'r archwiliad yn cynnwys y naw nodwedd warchodedig fel y'u nodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- rhyw
- oedran
- anabledd
- hil
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd neu famolaeth
- crefydd neu gred
- cyfeiriadedd rhywiol
- priodas a phartneriaeth sifil.

Ni chanfu ein harchwiliad unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu cyflog ar sail unrhyw nodweddion gwarchodedig. Mae unrhyw wahaniaethau yn ganlyniad i hyd wasanaeth neu drosglwyddiadau TUPE yn diogelu cyflogau blaenorol.

Ni ddylem orffwys ar ein rhwyfau a byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd yn flynyddol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod yna gyfiawnhad clir dros unrhyw achos lle nad ydym wedi penodi ar bwynt isaf y raddfa.

Er nad oes gennym unrhyw ddyletswydd statudol i adrodd ar ein bwlch cyflog rhwng y ddau ryw rydym yn dal i adrodd ar hyn fel rhan o'n hadolygiad o gyfle cyfartal.

Mae ein bwlch cyflog rhwng y ddau ryw yn 16.64 y cant (canolrif) ar hyn o bryd, sy'n is na chyfartaledd y DU.

Gorgynrychiolaeth menywod ar draws y sefydliad ac mewn graddau cyflog isel sydd i'w gyfrif am y bwlch cyfredol, gan fod 91 y cant o'r rhai yn y chwartel isaf yn fenywod.

Ar ôl dweud hynny, ni fyddwn yn gorffwys ar ein rhwyfau a byddwn yn parhau i graffu ar ein penderfyniadau cyflog i sicrhau eu bod yn deg a chyfiawn i'r ddau ryw.

# Ymrwymiad i'r Gymraeg



Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'n rôl arweinyddiaeth wrth gefnogi *Mwy na geiriau… Fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol* Llywodraeth Cymru.

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg (Deddf yr Iaith Gymraeg 1993) a Safonau'r Gymraeg yn amlinellu sut y bydd angen i ni drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd. Er nad yw'r Gymraeg yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae ein hymagwedd a'n gwerthoedd yn sicrhau bod ein gwaith a'n penderfyniadau polisi yn hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg i bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

# Gwybodaeth gydraddoldeb gan ein staff

Rydym yn casglu gwybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth am ein staff. Rydym yn gwneud hyn drwy annog aelodau staff i ddiweddaru eu proffil amrywiaeth cyn yr archwiliad blynyddol o gyflogau cyfartal.

**Y prif negeseuon am ein proffil staff:**

- Mae cyfran y staff sydd wedi dewis ateb rhai neu'r holl gwestiynau wedi cynyddu (rhwng +5 y cant a +18 y cant ar draws y gwahanol nodweddion).
- Mae yna gyfran uwch o weithwyr benywaidd na gweithwyr gwrywaidd o hyd.
- Mae proffil oedran ein gweithlu wedi'i ledaenu'n eithaf cyfartal, ac nid oes cynrychiolaeth annigonol o'r un grŵp oedran.
- Mae canran y gweithwyr anabl wedi cynyddu bron i dri y chant, sy'n cymharu â'r cynnydd o dri y chant yn ein proffil recriwtio.
- Byddwn yn parhau i annog staff i ddatgan eu gwybodaeth cydraddoldeb, nid yn unig drwy esbonio sut a pham rydym ni'n defnyddio'r wybodaeth, ond hefyd drwy greu amgylchedd diogel, llawn sicrwydd lle maent yn teimlo'n hyderus i wneud hynny.

## Tabl 1: Proffil amrywiaeth staff

**Proffil amrywiaeth y sefydliad**

| | Ebrill 2020<br>124 o staff | Mehefin 2021<br>134 o staff | Cyfartaledd Cymru[4] |
|---|---|---|---|
| **Rhywedd** | | | |
| Gwrywaidd | 25.6% | 25.38% | 49.3% |
| Benywaidd | 74.4% | 74.62% | 50.7% |
| | | | |
| **Oedran** | | | |
| 18-21 | 0.8% | 1.49% | 4.9% |
| 22-29 | 18.5% | 17.16% | 10.5% |
| 30-39 | 39.5% | 32.08% | 12.1% |
| 40-49 | 24.1% | 20.14% | 11.5% |
| 50-59 | 15.3% | 25.37% | 13.9% |
| 60+ | 1.6% | 2.98% | 27.3% |
| | | | |
| **Crefydd** | | | |
| Ddim am ddweud / heb ddatgan | 42.7% | 36.5% | |
| Anffyddiwr | 7.25% | 7.46% | |
| Agnostig | 3.2% | 4.47% | |
| Catholig | 0.8% | 0.74% | |
| Cristion | 25% | 21.64% | 47.9% |
| Mwslim | 1.6% | 1.49% | 1.8% |
| Dim | 19.35% | 27.31% | 47.3% |

4. Ffynhonnell: Rhywedd / oed / hil / crefydd / anabledd – StatsCymru. Cyfeiriadedd rhywiol / statws priodasol – y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cymharwyd yn uniongyrchol pan roedd ein setiau data'n cyfateb i gategorïau StatsCymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

| | Ebrill 2020<br>124 o staff | Mehefin 2021<br>134 o staff | Cyfartaledd Cymru[4] |
|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | | |
| Deurywiol | - | 0.74% | 0.8% |
| Cyfunrywiol | 1.6% | 2.23% | 1.5% |
| Heterorywiol | 56.45% | 59.7% | 95.5% |
| Ddim am ateb / heb ddatgan | 41.9% | 37.3% | 1.4% |
| | | | |
| **Anabledd** | | | |
| Ie | 4.03% | 6.71% | 21.8% |
| Na | 42.7% | 58.2% | 77.3% |
| Ddim am ateb / heb ddatgan | 53.2% | 35.07% | 0.8% |
| | | | |
| **Hil** | | | |
| Ddim am ateb / heb ddatgan | 45.96% | 36.56% | |
| Gwyn | 45.96% | 42.53% | 95.9% |
| Gwyn – Cymro | 4.8% | 16.41% | |
| Du Affricanaidd | 1.6% | 1.49% | 0.4% |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 1.6% | 1.49% | 0.1% |
| Du Caribïaidd | - | 0.74% | 0.2% |
| Asiaidd Dwyrain Affrica/Goaidd | - | 0.74% | |
| | | | |
| **Priod / Partneriaeth sifil** | | | |
| Ddim am ateb / heb ddatgan | 44.35% | 38.80% | |
| Ie | 33% | 31.34% | 48% |
| Na | 22.58% | 29.85% | 34% |
| | | | |
| **Yr un rhywedd ag adeg geni** | | | |
| Ddim am ateb / heb ddatgan | 45.16% | 37.31% | |
| Ydy | 54.83% | 62.68% | |
| Nac ydy | 0% | 0% | |

**Proffil amrywiaeth y bobl ar ein Cofrestr**

Rydym yn monitro nodweddion gwarchodedig pawb sydd ar ein Cofrestr. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg y bobl sydd wedi'u cofrestru gyda ni. Rydym yn cyhoeddi proffiliau data bob blwyddyn, sydd wedi'u seilio ar y wybodaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr sy'n cofrestru ac yn adnewyddu eu cofrestriad gyda ni. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hyn ar ein gwefan.

# Set Ddata Gofal Cymdeithasol Genedlaethol i Gymru



Mae'r Set Ddata Gofal Cymdeithasol Genedlaethol yn casglu data gofal cymdeithasol mewn un man i ddangos sut mae'r sector gofal cymdeithasol yn perfformio yng Nghymru. Gwnaethom ychwanegu Catalog Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i'n Porth Data yn ddiweddar.

Mae'r Catalog Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol yn helpu'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol i ddod o hyd i'r data y mae arnynt ei angen ac mae'n dal gwybodaeth am 44 o setiau data ar hyn o bryd. I ddysgu mwy am y setiau data sydd ar gael a chael at y data, gallwch chwilio'r catalog neu weld y setiau data yn ôl pwnc. Gallwch hefyd archwilio'r catalog gan ddefnyddio offeryn delweddu rhyngweithiol.

Byddem yn croesawu unrhyw adborth sydd gennych am y catalog. Cysylltwch â ni i roi eich barn drwy anfon neges e-bost at data@socialcare.wales.

# Data cydraddoldeb o'r rhaglenni hyfforddiant cenedlaethol

Mae gennym rôl i wella ansawdd a rheolaeth dysgu, datblygu, cymwysterau a hyfforddiant gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r rôl hon yn ein helpu i sicrhau bod gan y gweithlu gofal cymdeithasol y wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r ymagwedd iawn i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da yn y sector gofal cymdeithasol a sector y blynyddoedd cynnar.

Wrth ystyried beth i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn, gwnaethom benderfynu darparu gwybodaeth gydraddoldeb am y myfyrwyr gwaith cymdeithasol sy'n dilyn y rhaglenni cymhwyso gwaith cymdeithasol cymeradwy yng Nghymru.

### Tabl 2: Monitro cydraddoldeb myfyrwyr gwaith cymdeithasol

| Categori | Carfan 2017-18 | Carfan 2018-19 | Carfan 2019-20 | Carfan 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran ar gyfartaledd** | 32 oed | 31 oed | 32 oed | 32 oed |
| Y nifer a dderbyniwyd | 252 | 262 | 273 | 242 |
| | | | | |
| **Rhywedd** | | | | |
| Benywaidd | 88.4% | 86.0% | 84.8% | 84.7% |
| Gwrywaidd | 11.60% | 14% | 15.2% | 15.3% |
| | | | | |
| **Ethnigrwydd** | | | | |
| BAME | 6.4% | 6.4% | 5.5% | 8.3% |
| Gwyn | 93.6% | 93.6% | 94.5% | 91.7% |
| | | | | |
| **Anabledd** | 3.8% | 3.4% | 4.5% | 5.9% |
| | | | | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | | | |
| Heterorywiol | 94.0% | 93.4% | 95.6% | 94.0% |
| Cyfunrywiol/ Deurywiol | 6.0% | 6.6% | 4.4% | 6.0% |
| | | | | |
| **Gallu o ran y Gymraeg** | | | | |
| Rhywfaint/rhugl | 52.1% | 52.1% | 55.1% | 61.3% |
| Dim | 47.9% | 47.9% | 44.9% | 38.7% |